

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

MEMORANDWM CYWIRIADAU YN UNOL Â RHEOL SEFYDLOG 22.13

Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) 2001

Cefndir

Gosodwyd y Rheoliadau drafft hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Ionawr 2001. Fe'u hystyriwyd gan y Pwyllgor Busnes ar 23 Ionawr 2001 a chan y Pwyllgor Deddfau ar 6 Chwefror 2001

Nodwyd mân wallau teipograffyddol a drafftio a mân welliannau drafftio gan Gynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor Deddfau cyn cyfarfod y Pwyllgor ac fe gynigir y diwygiadau a ddangosir o'r herwydd.

Adroddwyd ar y diwygiadau a ddangosir isod i'r Pwyllgor Deddfau yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror, ac fe gytunodd iddynt gael eu hystyried gan y Cynulliad. Dangosir y geiriau a fewnosodwyd neu a ddilewyd, ac mae'r manau y gwnaed newidiadau ynddynt wedi'u marcio â llinell wrth ymyl y golofn.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

MEMORANDUM OF CORRECTIONS PURSUANT TO STANDING ORDER 22.13

The Tir Mynydd (Wales) Regulations 2001

Background

These Draft Regulations were laid before the National Assembly for Wales on 24th January 2001. They were considered by the Business Committee on 23rd January 2001 and by the Legislation Committee on 6th February 2001.

Minor typographical and drafting errors and improvements were noted by the Legal Advisers to the Legislation Committee before the Committee's meeting and the changes shown are proposed in consequence.

The amendments set out below were reported to the Legislation Committee at its meeting on the 6th February and agreed by it for consideration by the Assembly. Words inserted or removed are shown, and the location of changes is marked with a line at the edge of the column.

Paratowyd y ffurf hon ar Femorandwm Cywiriadau yn dilyn ymgynghoriad rhwng Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol a Chynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor Deddfau. Y bwriad yw dangos y newidiadau arfaethedig yn eu cyd-destun, yn hytrach nag ailadrodd yr eglurhad a geir yn adroddiad y Cynghorwyr Cyfreithiol.

Y gobaith yw y bydd Aelodau'r Cynulliad yn cael bod bod y ffurf hon o gymorthyma yn ddefnyddiol, ond gwahoddir unrhyw sylwadau.

This form of Memorandum of Corrections has been prepared following consultation between the Office of the Counsel General and the Legal Advisers to the Legislation Committee. The intention is to show the proposed changes in context rather than repeat the explanation contained in the Legal Advisers' report.

It is hoped that Assembly Members will find this format of assistance, but comments would be welcome.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU		NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES
OFFERYNNAU STATUDOL		STATUTORY INSTRUMENTS
2001 Rhif (Cy.)		2001 No. (W.)
AMAETHYDDIAETH, CYMRU		AGRICULTURE, WALES
Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) 2001		The Tir Mynydd (Wales) Regulations 2001

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

EXPLANATORY NOTE

(This note does not form part of the Regulations.)

Mae'r adolygiad o bolisi amaethyddiaeth cyffredin yr Undeb Ewropeaidd a elwir yn Agenda 2000 wedi arwain at newid yn y system gymorth amaethyddol ar gyfer ardaloedd llai ffafriol o un sydd wedi'i seilio ar y nifer o anifeiliaid i system sydd wedi'i seilio ar arwynebedd. Mae polisiau'r Undeb Ewropeaidd wedi'u nodi yn Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1257/1999 a cheir y fframwaith manwl ar gyfer gweithredu'r Rheoliad Cyngor hwnnw yn Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1750/1999.

The review of the European Union's common agricultural policy known as Agenda 2000 has led to a change in the system of less favoured area agricultural support from one based on the number of animals to an area based system. The policies of the European Union are set out in Council Regulation (EC) No. 1257/1999 and the detailed framework for the implementation of that Council Regulation is contained in Commission Regulation (EC) No. 1750/1999.

Cafwyd cynigion Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer gweithredu polisiau hynny 'r Undeb Ewropeaidd yn y Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer Cymru a gyflwynwyd ganddo i'r Comisiwn Ewropeaidd, ac a gymeradwywyd gan y Comisiwn ar 11 Hydref 2000. Mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â'r Cynllun sy'n cael ei ddisgrifio yn y Cynllun Datblygu Gwledig hwnnw fel y Cynllun Tir Mynydd, sy'n darparu cymorth ariannol i ffermwyr y mae eu daliad yn cynnwys tir tan anfantais neu dir tan anfantais ddifrifol (yr ardal lai ffafriol).

The proposals of the National Assembly for Wales for the implementation of those European Union policies were contained in the Rural Development Plan for Wales that it presented to the European Commission and which was approved on 11th October 2000. These Regulations deal with the Scheme described in that Rural Development Plan as the Tir Mynydd Scheme, which provides financial support for farmers whose holding includes disadvantaged or severely disadvantaged land (the less favoured area).

Mabwysiadwyd gwahanol gynlluniau ar gyfer cymorth i'r ardal llai ffafriol gan Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd daliadau sy'n cynnwys tir mewn mwy nag un rhan o'r Deyrnas Unedig felly yn destun rheoliadau pellach.

Different schemes for less favoured area support have been adopted by Wales, England, Scotland and Northern Ireland. Holdings that include land in more than one part of the United Kingdom will therefore be the subject of further regulations.

<p>Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer y canlynol:-</p>		<p>These Regulations provide for the following:</p>
<p>Rhan I – Cyffredinol.</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Enw, cychwyn a chymhwyso (rheoliad 1) ● Diffiniadau (rheoliad 2) 		<p>Part I – General.</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Name, commencement and application (regulation 1) ● Definitions (regulation 2)
<p>Rhan II – Y Cynllun.</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Ceiswyr cymwys (rheoliad 3) ● Y dwysedd stocio isaf(rheoliad 4) ● Y dwysedd stocio uchaf(rheoliad 5) ● Cyfrifo taliadau arwynebedd – elfen 1 (rheoliad 6 ac Atodlen 1) ● Taliadau chwyddo amgylcheddol o dan elfen 2 o'r cynllun (rheoliad 7) ● Categoriâu sy'n gymwys ar gyfer y taliad chwyddo amgylcheddol (rheoliad 8) 		<p>Part II – The Scheme.</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Qualifying claimants (regulation 3) ● Minimum stocking density (regulation 4) ● mMaximum stocking density (regulation 5) ● Ccalculation of area payments - element 1 (regulation 6 and Schedule 1) ● Environmental enhancement under element 2 of the scheme (regulation 7) ● Ccategories that qualify for enhancement (regulation 8)
<p>Rhan III – Gweinyddu</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Taliadau (rheoliad 9) ● Ceisiadau (rheoliad 10) ● Ceisiadau hwyr (rheoliad 11) ● Rhyddhau o ymrwymiad (rheoliad 12) ● Cadw'n ôl neu adennill taliadau (rheoliad 13) ● Cyfraddau llog (rheoliad 14) ● Daliadau Trawsffiniol (rheoliad 15) 		<p>Part III – Administration</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Payments (regulation 9) ● Claims (regulation 10) ● Late claims (regulation 11) ● Release from undertaking (regulation 12) ● Withholding or recovery of payments (regulation 13) ● Rate of interest (regulation 14) ● Cross Border Holdings (regulation 15)

Rhan IV – Gorfodi

- Pwerau personau a awdurdodir (rheoliad 16)
- Cymorth i bersonau a awdurdodir (rheoliad 17)
- Tramgwyddau (rheoliad 18)
- Cosbau (rheoliad 19)
- Terfyn amser ar gyfer erlyn (rheoliad 20)
- Tramgwyddau gan gyrrff corfforaethol (rheoliad 21)

Part IV Enforcement

- Powers of authorised persons (regulation 16)
- Assistance to authorised persons (regulation 17)
- Offences (regulation 18)
- Penalties (regulation 19)
- Time limit for prosecutions (regulation 20)
- Offences by bodies corporate (regulation 21)

Y ddeddfwriaeth Ewropeaidd y cyfeirir ati uchod a fynnodd y newidiadau yn y system gymorth. Mae'r Yr oedd y trefniadau manwl ar gyfer gwneud hynny wedi eu cynnwysa gynhwyswyd yn yng CNGhynllun Datblygu Gwledig y Cynulliad Cenedlaethol. Paratowyd fersiwn terfynol y Cynllun yn dilyn estun ymgynghoriad â'r partion â diddordeb ac â Phwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig y Cynulliad Cenedlaethol. Cymru. Nid oes unrhyw arfarniad rheoleiddiol penodol wedi'i wneud felly..

The changes to the system of support were required by the European legislation as referred to above. The detailed arrangements for doing so are contained in the National Assembly's Rural Development Plan. The final version of the Plan was prepared were the subject of the following consultation with interested parties and with the National Assembly's for Wales Agriculture and Rural Development Committee. No specific regulatory appraisal has therefore been carried out.

**OFFERYNNAU
STATUDOL**

**STATUTORY
INSTRUMENTS**

2001 Rhif (Cy.)

2001 No. (W.)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

**Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru)
2001**

The Tir Mynydd (Wales) Regulations 2001

Wedi'u gwneud 2001

Made 2001

Yn dod i rym 1 Mawrth 2001

Coming into force 1 March 2001

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), gan ei fod wedi'i ddynodi**(a)** at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972**(b)** mewn perthynas â pholisi amaethyddiaeth cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy hyn yn gwneud y rheoliadau canlynol:

The National Assembly for Wales ("the National Assembly"), having been designated**(a)** for the purposes of section 2 (2) of the European Communities Act 1972 **(b)** as regards the common agricultural policy of the European Community, hereby makes the following regulations:

RHAN I – CYFFREDINOL

PART I – GENERAL

Enw, cychwyn a chymhwyso

Name commencement and application

<p>1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 1 Mawrth 2001.</p>		<p>1.-(1) These Regulations are called the Tir Mynydd (Wales) Regulations 2001 and come into force on 1st March 2001.</p>
<p>(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas âi GChymru.</p>		<p>(2) These Regulations apply in relation to Wales.</p>
<p>Diffiniadau</p>		<p>Definitions</p>
<p>2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall -</p>		<p>2.-(1) In these Regulations unless the context otherwise requires -</p>
<p>mae "amaethyddiaeth" ("<i>agriculture</i>") yn cynnwys garddwriaeth, tyfu ffrwythau, tyfu hadau, ffermio llaeth a bridio a chadw da byw, defnyddio'r tir fel tir pori, doldir, tir helyg, gerddi marchnad a phlanhigfeydd, a defnyddio'r tir ar gyfer coetiroedd pan yw'r defnydd hwnnw'n atodol i ddefnyddio'r tir at ddibenion amaethyddol eraill, a dehonglir "amaethyddol" (<i>agricultural</i>) yn unol â hynny;</p> <p>ystyr "blwyddyn gynllun" ("<i>scheme year</i>") yw blwyddyn galendr;</p> <p>ystyr "buwch fridio" ("<i>breeding cow</i>") yw buwch sugno neu fuwch llaeth;</p> <p>mae i "buwch sugno" yr un ystyr ag i "<i>suckler cow</i>" yn Erthygl 3 o Reoliad y Cyngor (EC) 1254/1999 (c);</p> <p>mae i "cais am gymorth arwynebedd" yr un ystyr ag a roddir i "area aid application" yn erthygl 6 o Reoliad y Cyngor 3508/92 (ch);</p>		<p>"agriculture" ("<i>amaethyddiaeth</i>") includes horticulture, fruit growing, seed growing, dairy farming and livestock breeding and keeping, the use of land as grazing land, meadow land, osier land, market gardens and nursery grounds, and the use of land for woodlands where that use is ancillary to the use of land for other agricultural purposes, and "agricultural" ("<i>amaethyddol</i>") shall be construed accordingly;</p> <p>"area aid application" ("<i>cais am gymorth arwynebedd</i>") has the same meaning as in article 6 of Council Regulation 3508/1992(c);</p> <p>"authorised person" ("<i>person awdurdodedig</i>") means a person who is authorised by the National Assembly, either generally or specifically, to act in matters arising under these Regulations, whether or not an officer of the National Assembly;</p> <p>"breeding cow" ("<i>buwch fridio</i>") shall</p>

ystyr "ceisydd" ("*claimant*") yw person sy'n gwneud cais am lwfans iawndal a enwir yn daliad Tir Mynydd a dehonglir "cais" ("*claim*") yn unol â hynny;

ystyr "daliad" ("*holding*") yw'r holl unedau cynhyrchu a reolir gan y ceisydd ac sydd wedi'u lleoli o fewn y Deyrnas Unedig;

ystyr "dwysedd stocio" ("*stocking density*") yw'r nifer o unedau da byw wedi ei rannu gan y nifer o hectarau;

ystyr "gorbori" ("*overgrazing*") yw pori tir â chymaint o dda byw ag i effeithio'n andwyol ar dwf, ansawdd neu gynnwys rhywogaethol y llystyfiant (heblaw llystyfiant a borir fel rheol nes ei ddifa) ar y tir hwnnw i raddau arwyddocaol, a dehonglir "wedi'i orbori" ("*overgrazed*") yn unol â hynny;

mae i "heffer" yr un ystyr ag i "*heifer*" yn Erthygl 3 o Reoliad y Cyngor (EC) 1254/1999;

ystyr "IACS" yw System Integredig Gweinyddu a Rheoli a sefydlwyd gan Reoliad y Cyngor 3508/92;

ystyr "mamog" ("*ewe*") yw dafad fenyw sy'n un mlwydd oed o leiaf neu sydd wedi dod ac oen cyn 15 Mai yn y flwyddyn y gwneir cais am daliad Tir Mynydd;

ystyr "mapiau dynodedig" ("*designated maps*") yw'r ddwy gyfrol o fapiau sydd wedi'u rhifo 1 a 2, a'r ddwy gyfrol wedi'u marcio "Volume of Maps of less favoured farming areas in Wales" ac â rhif y

mean a suckler cow or a dairy cow;

"claimant" ("*ceisydd*") means a person who makes a claim for a compensatory allowance called a Tir Mynydd payment and "claim" ("*cais*") shall be construed accordingly;

"Commission Regulation 1750/1999" ("*Rheoliad y Comisiwn 1750/1999*") means Commission Regulation (EC) No. 1750/1999**(d)** which laid down detailed rules for the application of Council Regulation (EC) No. 1257/1999**(e)** on support for rural development from the European Agricultural Guidance and Guarantee Fund (EAGGF);

"Council Regulation 1257/1999" ("*Rheoliad y Cyngor 1257/1999*") means Council Regulation (EC) No. 1257/1999 on support for rural development from the European Agricultural Guidance and Guarantee Fund (EAGGF) and which also amended certain Regulations and repealed others certain Regulations;

"Council Regulation 3508/92" ("*Rheoliad y Cyngor 3508/92*") means Council Regulation (EEC) 3508/92 establishing an integrated administration and control system for community aid schemes;

"designated maps" ("*mapiau dynodedig*") means the two volumes of maps numbered 1 and 2, each volume being marked "Volume of Maps of less favoured farming areas in Wales" and with the number of the volume, dated 20th May 1991, signed by the Secretary of State for Wales, and deposited at the offices of the

gyfrol, dyddiedig 20 Mai 1991, wedi'u llofnodi gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ac wedi'u hadneuo yn swyddfeydd Adran Amaethyddiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ;

ystyr "pensiwn ymddeol" ("*retirement pension*") yw pensiwn categori A neu categori B o fewn ystyr pensiwn "category A" a "category B" yn adran 20(1)(f) o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992 (**ch**), neu bensiwn categori C neu categori D o fewn ystyr pensiwn "category C" a "category D" yn adran 63(f) o'r Ddeddf honno neu fudd-dâl ymddeol graddedig fel y cyfeirir ato yn adran 62 o'r Ddeddf honno;

ystyr "person awdurdodedig" ("*authorised person*") yw person sy'n cael ei awdurdodi gan y Cynulliad Cenedlaethol, naill ai'n gyffredinol neu'n benodol, i weithredu mewn materion sy'n codi o dan y Rheoliadau hyn, pu'n a yw'n swyddog y Cynulliad Cenedlaethol neu beidio;

ystyr "Rheoliad y Comisiwn 1750/1999" ("*Commission Regulation 1750/1999*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1750/1999 (**dd**) a bennodd reolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1257/1999 ar gymorth ar gyfer datblygu gwledig o Gronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop (EAGGF);

ystyr "Rheoliad y Cyngor 1257/1999" ("*Council Regulation 1257/1999*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1257/1999 ar gymorth ar

National Assembly for Wales
Agriculture Department at Cathays
Park, Cardiff CF10 3NQ;

"disadvantaged land" ("*tir tan anfantais*") (except in the expression "severely disadvantaged land") means land shown coloured blue on the designated maps;

"eligible land" ("*tir cymwys*") means disadvantaged land or severely disadvantaged land that complies with the requirements of these Regulations;

"ewe" ("*mamog*") means a female sheep which is at least one year old or has given birth by 15th May in the year in which a claim for a Tir Mynydd payment is made;

"forage land" ("*tir porthiant*") means land used to graze or feed livestock which was included as such in a valid area aid application submitted for the relevant year;

"heifer" ("*heffer*") has the same meaning as in Article 3 of Council Regulation (EC) 1254/1999 (**f**);

"holding" ("*daliad*") means all the production units managed by the claimant situated within the United Kingdom;

"IACS" means the Integrated Administration and Control System established by Council Regulation 3508/92;

"less favoured area" ("*tir llai ffafriol*")

gyfer datblygu gwledig o Gronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop (EAGGF) ac a ddiwygiodd Reoliadau penodol a'u diddymu;

ystyr "Rheoliad y Cyngor 3508/92" ("*Council Regulation 3508/92*") yw Rheoliad y Cyngor (EEC) 3508/92 yn sefydlu system integredig gweinyddu a rheoli ar gyfer cynlluniau cymorth y Gymuned;

ystyr "coetir" ("*woodland*") yw tir a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer tyfu coed;

ystyr "tir cymwys" ("*eligible land*") yw tir tan anfantais neu dir tan anfantais ddifrifol sy'n cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau hyn;

ystyr "tir tan anfantais" ("*disadvantaged land*") (heblaw yn yr ymadrodd "tir tan anfantais ddifrifol") yw'r tir a ddangosir â lliw glas ar y mapiau dynodedig;

ystyr "tir tan anfantais ddifrifol" ("*severely disadvantaged land*") yw tir a ddangosir â lliw pinc ar y mapiau dynodedig;

ystyr "tir porthiant" ("*forage land*") yw tir a ddefnyddiwyd i bori neu fwydo da byw ac a gynhwyswyd fel tir o'r fath mewn cais dilys am gymorth arwynebedd a gyflwynwyd ar gyfer y flwyddyn berthnasol 15 Mai 2000 neu cyn hynny;

ystyr "tir llai ffafriol" ("*less favoured area*") yw tir sydd tan anfantais neu dan anfantais ddifrifol;

means land that is disadvantaged or severely disadvantaged;

"livestock unit" ("*uned da byw*") is a unit of measurement of livestock numbers, and the following constitute a single livestock unit -

(a) one suckler cow;

(b) 1.67 heifers;

(c) 6.67 female sheep eligible under the Sheep Annual Premium Scheme pursuant to the Sheep Annual Premium Regulations 1992 **(g)** as amended;

"overgrazing" ("*gorbori*") means grazing land with livestock in such numbers as adversely to affect the growth, quality or species composition of vegetation (other than vegetation normally grazed to destruction) on that land to a significant degree, and "overgrazed" ("*wedi'i orbori*") shall be construed accordingly;

"production unit" ("*uned gynhyrchu*") means land farmed by a claimant as a single unit, having regard to supplies of machinery, livestock, feeding stuffs and workforce;

"retirement pension" ("*pensiwn ymddeol*") means a category A or category B pension within the meaning of section 20(1)(f) of the Social Security Contributions and Benefits Act 1992**(h)**, or a category C or category D pension within the meaning of section 63(f) of that Act or a graduated retirement benefit as referred to in section 62 of that Act;

ystyr "uned gynhyrchu" ("*production unit*") yw tir a ffermir gan geisydd fel uned unigol, gan ystyried cyflenwadau o beiriannau, da byw, porthiant a gweithwyr;

ystyr "uned da byw" ("*livestock unit*") yw uned mesur rhifau da byw, ac mae'r canlynol yn ffurfio un uned da byw:-

(a) un fuwch sugno;

(b) 1.67 o heffrod;

(c) 6.67 o ddefaid benyw sy'n gymwys o dan y Cynllun Premiwm Blynyddol Defaid yn unol â'r Rheoliadau Premiwm Blynyddol Defaid 1992
(f) fel y diwygiwyd.

"scheme year" ("*blwyddyn gynllun*") means a calendar year;

"severely disadvantage land" ("*tir tan anfantais ddifrifol*") means land shown coloured pink on the designated maps;

"stocking density" ("*dwysedd stocio*") means the number of livestock units divided by the number of hectares;

"suckler cow" ("*buwch sugno*") has the same meaning as in Article 3 of Council Regulation 1254/1999;

"woodland" ("*coetir*") means land used primarily for the growing of trees.

(2) mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at offeryn Cymunedol yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir ar y dyddiad y gwneir y Rheoliadau hyn.

(2) any reference in these Regulations to a Community instrument is reference to that instrument as amended on the date on which these Regulations are made.

(3) mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at reoliad neu atodlen â rhif (heb unrhyw gyfeiriad cyfatebol at offeryn penodol) yn gyfeiriad at y rheoliad neu'r atodlen a rifir felly yn y Rheoliadau hyn.

(3) any reference in these Regulations to a numbered regulation or schedule (without a corresponding reference to a specific instrument) is a reference to the regulation or schedule so numbered in these Regulations.

Rhan II – Y Cynllun

Part II - The Scheme

Ceiswyr cymwys

3. (1) Bydd ceiswyr yn gymwys i gael taliadau o dan y cynllun Tir Mynydd:

- a. os ydynt wedi cyflwyno cais dilys am gymorth arwynebedd a ddangosodd bod tir cymwys yn bodoli;
- b. os ydynt wedi ymrwymo i barhau i ffermio o leiaf chwe hectar o dir gymwys am bum mlynedd o ddyddiad taliad Tir Mynydd cyntaf; ac
- c. os ydynt wedi cyflwyno cais am gymorth da byw mewn perthynas â defaid neu fuchod sugno neu'r ddau yn ystod y flwyddyn y cyflwynir y cais Tir Mynydd; a

.(d) os ydynt yn cymhwyso arferion ffermio da, sy'n gydnaws â'r angen i ddiogelu'r amgylchedd a chynnal cefn gwlad, drwy ffermio cynaliadwy yn benodol.

(2) Yr arwynebedd cymwys yw'r tir porthiant o fewn yr ardal lai ffafriol a ddatganwyd ar y ffurflen gais IACS am gymorth arwynebedd ar gyfer y flwyddyn gynllun, yn ddarostyngedig i'r darpariaethau canlynol mewn perthynas â thir a borir gan fuchod llaeth.

Qualifying claimants

3. (1) Claimants shall be eligible for payments under the Tir Mynydd scheme if they:

- a. have submitted a valid area aid application that showed the existence of eligible land;
- b. have undertaken to continue farming at least six hectares of eligible land for five years from the date of the first Tir Mynydd payment; and
- c. have submitted a claim for livestock aid in relation to sheep or suckler cows or both during the year in which the Tir Mynydd claim is submitted; and
- d. apply usual good farming practices compatible with the need to safeguard the environment and maintain the countryside, in particular by sustainable farming.

(2) The eligible area is the forage land within the less favoured area as declared in the IACS area aid application for the scheme year, subject to the following provisions relating to land grazed by dairy cows.

(3) Os oes gan y ceisydd, ar ddyddiad y cais Tir Mynydd, swmp cyfeiriol unigol o laeth ar gael, bydd arwynebedd y tir cymwys yn cael ei leihau yn unol â darpariaethau'r rheoliad hwn.

(4) Cyfrifir y lleihad trwy gyfeirio at y nifer o anifeiliaid yn y fuches laeth dybiannol.

(5) Cyfrifir y nifer o unedau da byw yn y fuches laeth dybiannol trwy rannu'r swmp cyfeiriol unigol o laeth sydd ar gael i'r ceisydd â 5730, sef y nifer o litrau o laeth y bernir ei fod yn cyfateb i gynnyrch blynyddol un fuwch laeth.

(6) Mae'r unedau da byw hynny yn cael eu cymhwyso'n gyntaf i'r rhan honno o'r daliad nad yw'n dir cymwys ar y raddfa o un hectar ar gyfer pob dwy uned da byw sy'n cael eu cyfrifo felly.

(7) Mae'r unedau da byw sydd ar ôl yn cael eu defnyddio i gyfrifo'r lleihad mewn tir cymwys yn ôl yr un gyfradd, gan leihau'r tir tan anfantais cyn y tir tan anfantais ddifrifol.

(8) Yn y rheoliad hwn ystyr "buches laeth dybiannol" yw cyfanswm yr anifeiliaid y bernir eu bod yn fuches laeth ar dir sy'n cael ei ffermio gan y ceisydd yng Nghymru fel y'i cyfrifwyd uchod ac mae i "swmp cyfeiriol unigol o laeth" yr un ystyr ag i "individual reference quantity of milk" yn Erthygl 31 o Reoliad y Comisiwn 2342/1999 **(ff)**

(3) If, on the date of the Tir Mynydd claim, the claimant has available an individual reference quantity of milk, the area of eligible land is reduced in accordance with the provisions of this regulation.

4. The reduction is calculated by reference to the number of animals in the notional dairy herd.

(5) The number of livestock units in the notional dairy herd is calculated by dividing the individual reference quantity of milk available to the claimant by 5730, being the number of litres of milk deemed to be equivalent to the annual production of one dairy cow.

(6) Such livestock units are firstly applied to that part of the holding that is not eligible land at the rate of one hectare for each two livestock units so calculated.

(7) The remaining livestock units not so applied are used to calculate the reduction in eligible land at the same rate, taking the reduction from disadvantaged land before severely disadvantaged land.

(8) In this regulation "notional dairy herd" means the total number of animals deemed to constitute the dairy herd on land farmed by the claimant in Wales as calculated above and "individual reference quantity of milk" has the same meaning as in Article 31 of Commission Regulation 2342/1999 **(i)**.

Y dwysedd stocio isaf

4. (1) I fod yn gymwys i gael taliadau Tir Mynydd rhaid bod gan y daliad ddwysedd stocio o 0.1 uned da byw o leiaf am bob hectar.

(2) Pan fydd dwysedd stocio is yn ofynnol gan gynlluniau amgylcheddol neu gadwraeth natur y mae'r ceisydd yn cymryd rhan ynddynt, fe ganiateir dwysedd stocio is.

Y dwysedd stocio uchaf

5.- (1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau paragraff (2) isod, ni fydd unrhyw ddwysedd stocio uchaf yn cael ei ragnodi.

(2) Bydd daliad y mae ei ddwysedd stocio yn 1.8 uned da byw am bob hectar neu'n uwch yn cael ei archwilio gan neu ar ran y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod 2001 (neu yn y flwyddyn gyntaf y bydd y dwysedd yn uwch na'r ffigur hwnnw) ac o leiaf bob tair blynedd wedi hynny.

(3) Os bydd archwiliad o dan baragraff (2) uchod yn dangos tystiolaeth sy'n bodloni'r Cynulliad Cenedlaethol fod gorbore yn digwydd, fe fydd yn ofynnol i'r ceisydd wneud cytundeb rheoli gyda'r Cynulliad Cenedlaethol gyda golwg ar gael gwared ar y gorbore hwnnw. Rhaid i'r cytundeb nodi amserlen i'r ceisydd addasu ei gyfradd stocio i ddileu'r perygl o orbore.

Minimum stocking density

4. (1) To qualify for Tir Mynydd payments the holding must have a minimum stocking density of 0.1 livestock units per hectare.

(2) Where a lower stock limit is required by environmental or nature conservation schemes in which the claimant is a participant, the lower limit will be allowed.

Maximum stocking density

5. (1) Subject to the provisions of paragraph (2) below, there will be no prescribed maximum stocking density,.

(2) A holding with stocking density of 1.8 livestock units per hectare or over shall be the subject of an inspection by or on behalf of the National Assembly during 2001 (or in the year in which that density is first exceeded) and at least every three years thereafter.

(3) If an inspection under paragraph (2) above produces evidence of overgrazing to the satisfaction of the National Assembly, the claimant will be required to enter into a management agreement with the National Assembly with a view to eliminating such overgrazing. The agreement must set out the timescale for the claimant to adjust stocking rates to remove the risk of overgrazing.

(4) Bydd unrhyw geisydd y mae ei ddaliad wedi'i archwilio (a bod yr archwiliad hwnnw wedi arwain ar dystiolaeth o orbori) ond nad yw wedi gwneud cytundeb rheoli â'r Cynulliad Cenedlaethol neu sydd gydymffurfio â thelerau'r cytundeb rheoli o'r fath, yn peidio â bod yn gymwys ar gyfer taliadau Tir Mynydd nes i'r cynllun rheoli gael ei gwblhau neu nes y cydymffurfir ag ef, yn ôl fel y digwydd.

(4) Any claimant whose holding has been inspected (and that inspection has led to evidence of overgrazing) but who has not concluded a management agreement with the National Assembly or who has not complied with the terms of such a management agreement shall cease to be eligible for Tir Mynydd payments until the management scheme has been concluded or complied with as the case may be.

Cyfrifo taliadau arwynebedd – elfen 1

6.-(1) Bydd ceisydd sy'n bodloni'r amodau a nodir yn rheoliadau 3,4 a 5 uchod yn gymwys i gael taliadau o dan elfen 1 o'r cynllun yn unol â'r cyfrifiad a gynhwysir yn Rhan A o'r Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

(2) Bydd y cyfrifiad sylfaenol a wneir yn unol a Rhan A o'r Atodlen 1 yn ddarostyngedig i'r mecanwaith meinhaus a nodir yn Rhan B o'r Atodlen 1, pan fydd y tir porthianthelbori cymwys yn fwy na 140 hectar.

(3) Bydd dull cyfrifo elfen 1 o'r taliad arwynebedd hefyd yn ddarostyngedig i fecanwaith diogelwch a gyfrifir y mecanwaith diogelwch yn unol â Rhan C o'r Atodlen 1.

Taliad chwyddo amgylcheddol o dan elfen 2 o'r cynllun

Calculation of area payments – element 1

6.-(1) A claimant who satisfies the conditions set out in regulations 3, 4 and 5 above shall be eligible for payment under element 1 of the scheme in accordance with the calculation contained in Part A of the Schedule 1 to these Regulations.

(2) The basic calculation made in accordance with part A of the Schedule 1 shall, where the eligible forage land exceeds 140 hectares, be subjected to the tapering mechanism set out in Part B of the Schedule 1.

(3) The calculation of element 1 of the area payment will also be subject to a safety net mechanism calculated in accordance with Part C of the Schedule 1.

Environmental enhancement under Element 2 of the Scheme

7.- (1) Bydd gan geiswyr hawl i gael ymchwydd o'r taliad sy'n daladwy iddynt mewn perthynas ag elfen 1 o'r cynllun Tir Mynydd os ydynt yn gymwys o dan un neu fwy o'r categorïau a bennir yn rheoliad 8 isod.

(2) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau paragraff (4) isod, bydd gan unrhyw geisydd sy'n bodloni un o'r categorïau hawl i gael taliad chwyddo o 10 y cant o'r taliad a gyfrifwyd o dan elfen 1.

(3) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau paragraff (4) isod, bydd gan unrhyw geisydd sy'n bodloni dau neu fwy o'r categorïau hawl i gael taliad chwyddo o 20 y cant o'r taliad a gyfrifwyd o dan elfen 1.

(4) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol addasu'r taliadau chwyddo sy'n daladwy i geiswyr yn unol â'r rheoliad hwn os bydd cyfanswm y taliadau chwyddo y cyfrifir eu bod yn daladwy o dan y rheoliad hwn yn dod i fwy na phump y cant o'r gyllideb gyfan ar gyfer y cynllun Tir Mynydd yn ystod 2001 a 2002 a deg y cant ar gyfer y blynyddoedd dilynol. Os felly, bydd y taliad chwyddo canrannol yn cael ei leihau i'r ganran a fydd yn cyfyngu cyfanswm y taliadau chwyddo i bump y cant o gyllideb Tir Mynydd ar gyfer 2001 a 2002 a deg y cant ar gyfer y blynyddoedd dilynol.

Categorïau sy'n gymwys ar gyfer y taliad chwyddo amgylcheddol

8. Mae'r categorïau sy'n gymwys ar gyfer y taliad chwyddo y cyfeiriwyd ato yn rheoliad 7 uchod fel a ganlyn:

7. (1) Claimants shall be entitled to an enhancement of the payment due to them in respect of Element 1 of the Tir Mynydd scheme if they qualify under one or more of the categories set out in regulation 8 below.

(2) Subject to the provisions of paragraph (4) below, any claimant who satisfies one of the categories shall be entitled to an enhancement of 10 per cent of the payment calculated under element 1.

(3) Subject to the provisions of paragraph (4) below, any claimant who satisfies two or more of the categories will be entitled to an enhancement of 20 per cent of the payment calculated under element 1.

(4) The National Assembly may adjust the enhancements due to claimants pursuant to this regulation if the total enhancements calculated to be payable under this regulation exceed five per cent of the total budget for the Tir Mynydd scheme for 2001 and 2002 and ten per cent for subsequent years. In that case the percentage enhancement will be reduced to such percentage as limits the total enhancements to five per cent of the total Tir Mynydd budget for 2001 and 2002 and ten per cent for subsequent years.

Categories that qualify for the environmental enhancement

8. The categories that qualify for the enhancement referred to in regulation 7 above are the following:

(a) bod y daliad yn cynnwys cymhareb o o leiaf un fuwch fridio ar gyfer pob 30 mamog yn yr ardal lai ffafriol;

(b) bod y fferm wedi'i chofrestru yng Nghofrestr ar Safonau Bwyd Organig y Deyrnas Unedig (corff yr hysbyswyd Y Comisiwn Ewropeaidd ei fod wedi'i ddynodi fel awdurdod archwilio) mewn perthynas â thir nad yw eisoes yn destun cytundeb o dan naill ai'r cynllun cymorth organig neu'r cynllun ffermio organig;

